GWEINIDOGION CYMRU

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

CYFARWYDDYD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU (ADOLYGU FFINIAU CYMUNEDAU) BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR 2007

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddyd canlynol i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wrth arfer y pwerau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 [(1)] a chaiff y pwerau hynny eu harfer bellach gan Weinidogion Cymru [(2)]:

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn:

mae "y Ddeddf" yn golygu Deddf Llywodraeth Leol 1972;

mae "y Comisiwn" yn golygu'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

2. Yn unol ag adran 56(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o ffiniau cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr at ddibenion ystyried a ddylid gwneud y cyfryw gynigion ai peidio mewn perthynas â'r ardal a adolygir fel y'u hawdurdodir gan adran 54 o'r Ddeddf, a pha gynigion, os o gwbl, i'w gwneud; a rhaid i'r Comisiwn, os yw'n barnu bod hynny'n briodol, lunio'r cyfryw gynigion yn unol â hynny.

Dr Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad: 8 / 11 / 2007

---

(1) 1972 3c.70; diwygiwyd adran 56 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994

(2) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a drosglwyddodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd swyddogaethau'r Cynulliad eu trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru gan atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. (2006 c.38).